# Pennod 1: Bwyd y gallwch ymddiried ynddo

## Cyflwyniad

Cenhadaeth gyffredinol yr ASB yw sicrhau ‘bwyd y gallwch ymddiried ynddo’. Gweledigaeth yr ASB yw system fwyd sy’n bodloni’r gosodiadau canlynol:

- Mae bwyd yn ddiogel
- Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label
- Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy

Mae’r bennod hon yn rhoi trosolwg o ymwybyddiaeth ymatebwyr o’r ASB a’u hymddiriedaeth ynddi, yn ogystal â’u hyder mewn diogelwch bwyd a chywirdeb yr wybodaeth a ddarperir ar labeli bwyd (footnote 1).

## Hyder o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd

Dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr eu bod yn hyderus o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd (er enghraifft, eu bod yn hyderus iawn neu’n weddol hyderus). Dywedodd 92% o'r ymatebwyr eu bod yn hyderus bod y bwyd y maent ei brynu yn ddiogel i'w fwyta; a dywedodd 86% o'r ymatebwyr eu bod yn hyderus bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir (footnote 2).

Roedd hyder o ran diogelwch bwyd yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:

- NS-SEC (footnote 3): roedd ymatebwyr mewn rhai grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 94% o'r rheiny mewn galwedigaethau canolradd) yn fwy tebygol o fod yn hyderus bod y bwyd maent yn ei brynu yn ddiogel i'w fwyta nag ymatebwyr a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir a/neu erioed wedi gweithio (77%).

Roedd hyder yng nghywirdeb yr wybodaeth ar labeli bwyd yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:

- Incwm blynyddol y cartref: roedd ymatebwyr ag incwm dros £96,000 (96%) yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt hyder yng nghywirdeb labeli bwyd o gymharu â'r rheiny ag incwm llai na £95,999 (er enghraifft, 84% o’r rheiny ag incwm rhwng £19,000 a £31,999).
- NS-SEC: roedd ymatebwyr mewn grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 88% o'r rheiny mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn hyderus bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir o gymharu ag ymatebwyr a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir a/neu erioed wedi gweithio (74%).

## Hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd

Dywedodd tua thri chwarter o’r ymatebwyr (76%) fod ganddynt hyder (hynny yw, hyderus iawn neu’n weddol hyderus) yn y gadwyn cyflenwi bwyd (footnote 4).


Roedd hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:

- Gr?p oedran: roedd ymatebwyr rhwng 65 a 74 oed (83%) yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd o gymharu ag oedolion iau (er enghraifft, 70% o'r rheiny rhwng 35 a 44 oed).
- NS-SEC: roedd ymatebwyr mewn grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 78% o'r rheiny mewn galwedigaethau canolradd) yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd na'r rheiny a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir a/neu erioed wedi gweithio (64%).
- Diogeledd bwyd: roedd ymatebwyr â diogeledd bwyd uchel (78%) yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd nag oedd ymatebwyr â diogeledd bwyd isel iawn (68%).
- Gr?p ethnig: roedd ymatebwyr gwyn (77%) yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd nag ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (68%)**.
- Gorsensitifrwydd i fwyd: roedd ymatebwyr nad oedd ganddynt orsensitifrwydd i fwyd (77%) yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt hyder yn y gadwyn cyflenwi bwyd o gymharu ag ymatebwyr ag anoddefiad bwyd (69%).

## Ffigur 1: Hyder bod y rheiny sy'n rhan o'r gadwyn cyflenwi bwyd yn sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Y sawl sydd â rhan yn y gadwyn cyflenwi bwyd | Defnyddwyr sydd â hyder yn y sawl sydd â rhan yn y gadwyn cyflenwi bwyd (%) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau dosbarthu bwyd | 45 |
| Siopau tecawê | 61 |
| Lladd-dai a llaethdai | 77 |
| Gweithgynhyrchwyr bwyd | 80 |
| Bwytai | 82 |
| Siopau ac archfarchnadoedd | 85 |
| Ffermwyr | 88 |

Lawrlwytho'r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor hyderus oeddent fod y rheiny sydd â rhan allweddol yn y gadwyn cyflenwi bwyd yn sicrhau bod y bwyd maent yn ei brynu yn ddiogel i'w fwyta. Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt hyder (hynny yw, yn hyderus iawn neu'n weddol hyderus) mewn ffermwyr (88%) a siopau ac archfarchnadoedd (85%) nag mewn siopau tecawê (61%) a gwasanaethau dosbarthu bwyd, er enghraifft Just Eat, Deliveroo, Uber Eats (45%), (Ffigur 1) (footnote 5).

## Ymwybyddiaeth o'r ASB ac ymddiriedaeth a hyder ynddi

Roedd y rhan fwyaf (92%) o'r ymatebwyr wedi clywed am yr ASB (footnote 6).

Roedd ymwybyddiaeth o'r ASB yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:


- Gr?p oedran: roedd ymatebwyr h?n yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB nag ymatebwyr iau. Er enghraifft, dywedodd 96% o'r rheiny rhwng 65 a 74 oed eu bod yn gwybod am yr ASB, o gymharu â 81% o'r rheiny rhwng 16 a 24 oed.
- NS-SEC: roedd ymatebwyr mewn rhai grwpiau galwedigaethol (er enghraifft, 96% o'r rheiny mewn galwedigaethau canolradd) yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB nag ymatebwyr a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir a/neu erioed wedi gweithio (70%), a myfyrwyr amser llawn (80%).
- Diogeledd bwyd: roedd ymatebwyr â diogeledd bwyd uchel (95%) yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB nag oedd ymatebwyr â diogeledd bwyd isel (85%).
- Gr?p ethnig: roedd ymatebwyr gwyn (94%) yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB o gymharu ag ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (82%).
- Cyfrifoldeb dros goginio: roedd ymatebwyr a oedd yn gyfrifol am goginio (93%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi clywed am yr ASB na'r rheiny nad ydynt yn coginio (77%).
- Cyfrifoldeb dros siopa am fwyd: roedd yr ymatebwyr a oedd yn gyfrifol am siopa am fwyd (94%) yn fwy tebygol o fod wedi clywed am yr ASB na'r rheiny nad ydynt byth yn siopa am

fwyd (74%).

## Ffigur 2: Gwybodaeth am yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Newid i weld tabl a fersiwn hygyrch

Newid i weld siart




| ?Lefel wybodaeth | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Erioed wedi clywed am yr ASB | 4 |
| Heb glywed am yr ASB nes cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg | 5 |
| Wedi clywed am yr ASB, ond ddim yn gwybod dim amdani | 33 |
| Yn gwybod ychydig am yr ASB a'i gwaith | 51 |
| Yn gwybod llawer am yr ASB a'i gwaith | 7 |

Lawrlwytho’r siart hon

Delwedd .csv

Ffynhonnell: Bwyd a Chi 2: Cylch 4

Dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr eu bod yn gwybod o leiaf rywfaint am yr ASB; dywedodd 7% eu bod yn gwybod llawer am yr ASB a'i gwaith; a dywedodd 51% eu bod yn gwybod ychydig am yr ASB a'i gwaith. Dywedodd tua 4 o bob 10 (42%) o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod am yr ASB; dywedodd 33% eu bod wedi clywed am yr ASB ond nad oeddent yn gwybod unrhyw beth amdani. Nid oedd 5% wedi clywed am yr ASB cyn iddynt gael gwahoddiad i gymryd rhan yn arolwg Bwyd a Chi 2; ac nid oedd 4% wedi clywed am yr ASB (Ffigur 2) (footnote 7).

Roedd gwybodaeth am yr ASB yn amrywio rhwng gwahanol gategorïau o bobl yn y ffyrdd canlynol:

- Gr?p oedran: roedd ymatebwyr rhwng 45 a 64 oed (er enghraifft, 69% o'r rheiny rhwng 45 a 54 oed) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB, o gymharu ag ymatebwyr iau (50% o’r rheiny rhwng 16 a 24 oed; 54% o’r rheiny rhwng 25 a 34 oed) neu’r ymatebwyr hynaf (41% o’r rheiny 75 oed a h?n).
- NS-SEC: roedd ymatebwyr mewn galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol (63%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB na'r rheiny mewn galwedigaethau goruchwylio a thechnegol is (53%), y rheiny a oedd yn ddi-waith yn y tymor hir a/neu erioed wedi gweithio (45%), neu fyfyrwyr amser llawn (46%).
- Gwlad: roedd ymatebwyr yng Nghymru (68%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB na’r rheiny yn Lloegr (57%). Dywedodd chwech o bob deg (60%) o’r ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon eu bod yn gwybod am yr ASB.
- Gorsensitifrwydd i fwyd: roedd ymatebwyr ag alergedd (70%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB o gymharu ag ymatebwyr ag anoddefiad bwyd (56%) neu’r rheiny nad oedd ganddynt orsensitifrwydd i fwyd (58%).
- Cyfrifoldeb dros goginio: roedd yr ymatebwyr sy’n gyfrifol am goginio (60%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB na’r rheiny nad ydynt yn coginio (34%).
- Cyfrifoldeb dros siopa: roedd yr ymatebwyr sy’n gyfrifol am siopa (60%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am yr ASB na’r rheiny nad ydynt byth yn siopa (35%).

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd gwybod o leiaf rywfaint am yr ASB i ba raddau maent ymddiried ynddi i gyflawni ei gwaith, sef sicrhau bod ‘bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label’. Dywedodd 77% o’r ymatebwyr eu bod yn ymddiried yn yr ASB i wneud hyn (footnote 8).

Dywedodd mwy nag 8 o bob 10 (85%) o’r ymatebwyr eu bod yn hyderus y gellir dibynnu ar yr ASB (neu’r adran lywodraethol sy’n gyfrifol am ddiogelwch bwyd) i ddiogelu’r cyhoedd rhag risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd (fel gwenwyn bwyd neu adweithiau alergaidd a achosir gan fwyd); roedd 80% yn hyderus bod yr ASB wedi ymrwymo i gyfathrebu'n agored â'r cyhoedd ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd, ac roedd 83% yn hyderus bod yr ASB yn cymryd camau priodol pan gaiff risg sy'n gysylltiedig â bwyd ei nodi (footnote 9).

1. Yn unol â Strategaeth 2022-2027 yr ASB, bydd adroddiadau’r dyfodol hefyd yn ystyried bwyd iachach a mwy cynaliadwy yn y bennod hon.

2. Cwestiwn: Pa mor hyderus ydych chi... A) bod y bwyd rydych chi'n ei brynu yn ddiogel i'w fwyta. B) bod yr wybodaeth ar labeli bwyd yn gywir (er enghraifft, cynhwysion, gwybodaeth am faeth, gwlad tarddiad). Ymatebion: Yn hyderus iawn, Yn weddol hyderus, Ddim yn hyderus iawn, Ddim yn hyderus o gwbl, Mae'n amrywio, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4786,

pob un a wnaeth ymateb ar-lein a’r rheiny a wnaeth gwblhau’r arolwg papur ‘Bwyta Gartref’.

3. System ddosbarthu yw Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC), sy'n awgrymu sefyllfa economaidd-gymdeithasol unigolion ar sail galwedigaeth a statws cyflogaeth.

4. Cwestiwn: Pa mor hyderus ydych chi yn y gadwyn cyflenwi bwyd? Hynny yw, yr holl brosesau sy’n gysylltiedig â dod â bwyd i’ch bwrdd. Ymatebion: Yn hyderus iawn, Yn weddol hyderus, Ddim yn hyderus iawn, Ddim yn hyderus o gwbl, Mae'n amrywio, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4786, pob un a wnaeth ymateb ar-lein a’r rheiny a wnaeth gwblhau’r arolwg papur ‘Bwyta Gartref’.

5. Cwestiwn: Pa mor hyderus ydych chi bod… A) Ffermwyr, B) Lladd-dai a llaethdai, C) Gwneuthurwyr bwyd, er enghraifft ffatrïoedd, D) Siopau ac archfarchnadoedd, E) Bwytai, F) Siopau tecawê, G) Gwasanaethau dosbarthu bwyd, er enghraifft Just Eat, Deliveroo, Uber Eats... yn y DU (ac Iwerddon) yn sicrhau bod y bwyd rydych chi'n ei brynu yn ddiogel i'w fwyta. Ymatebion: Yn hyderus iawn, Yn weddol hyderus, Ddim yn hyderus iawn, Ddim yn hyderus o gwbl, Mae'n amrywio, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 4755, pob un a wnaeth ymateb ar-lein a’r rheiny a wnaeth gwblhau’r arolwg papur ‘Bwyta Allan’.

6. Pa rai o'r cyrff canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi clywed amdanynt? Dewiswch bob un sy'n berthnasol. Ymateb: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), (Lloegr) Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE), (Lloegr) Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), (Lloegr) Asiantaeth yr Amgylchedd, (Cymru a Lloegr) Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), (Cymru) Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW), (Cymru) Cyfoeth Naturiol Cymru, (Gogledd Iwerddon) Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd (PHA), (Gogledd Iwerddon) Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), (Gogledd Iwerddon) Gweithredaeth Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon (HSENI), (Gogledd Iwerddon) Safefood. Sylfaen = 3745, pob un a wnaeth ymateb ar-lein. Pwysig: Roedd yr holl ddefnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg gan Ipsos, a wnaeth grybwyll yr ASB. Mae diffyg ymateb yn dangos nad oedd yr ymatebydd wedi clywed am y sefydliad neu nad oedd wedi ateb y cwestiwn.

7. Cwestiwn: Faint, os o gwbl, ydych chi'n ei wybod am yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a adwaenir hefyd fel yr ASB? Ymateb: Rydw i’n gwybod llawer am yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'i gwaith, Rydw i’n gwybod ychydig am yr Asiantaeth Safonau Bwyd a’i gwaith, Rydw i wedi clywed am yr ASB ond dydw i ddim yn gwybod dim amdani, Doeddwn i ddim wedi clywed am yr ASB nes imi gael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg hwn, Dydw i erioed wedi clywed am yr ASB. Sylfaen= 5796, yr holl ymatebwyr. Pwysig: Roedd yr holl ddefnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg, a wnaeth grybwyll yr ASB.

8. Cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n ymddiried yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ai peidio, i gyflawni ei gwaith? Hynny yw, sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label. Ymatebion: Rydw i’n ymddiried yn fawr ynddi, Rydw i’n ymddiried ynddi, Dydw i ddim yn ymddiried ynddi y naill ffordd neu’r llall, Dydw i ddim yn ymddiried ynddi, Dydw i ddim yn ymddiried ynddi o gwbl, Ddim yn gwybod. Sylfaen = 3543, yr holl ymatebwyr a oedd yn gwybod llawer neu ychydig am yr ASB a'i gwaith. Pwysig: Cyfeirir at 'Rydw i’n ymddiried yn fawr ynddi’ ac ‘Rydw i’n ymddiried ynddi’ fel ‘ymddiried’

9. Cwestiwn: Pa mor hyderus ydych chi y gellir dibynnu ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd/yr asiantaeth lywodraethol sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon... A) i ddiogelu'r cyhoedd rhag risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd (fel gwenwyn bwyd neu adweithiau alergaidd a achosir gan fwyd). B) ei bod wedi ymrwymo i gyfathrebu'n agored â'r cyhoedd ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â bwyd. C) ei bod yn cymryd camau priodol pan gaiff risg sy'n gysylltiedig â bwyd ei nodi? Ymatebion: Yn hyderus iawn, Yn weddol hyderus, Ddim yn hyderus iawn, Ddim yn hyderus o gwbl, Ddim yn gwybod. Sylfaen= 5796, yr holl ymatebwyr. Pwysig: Cyfeirir at ymatebwyr 'hyderus iawn' a 'gweddol hyderus' fel rhai 'hyderus'. Holwyd ymatebwyr a oedd yn gwybod ychydig, neu ddim o gwbl, am yr ASB ynghylch 'yr adran lywodraethol sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd'; holwyd y rheiny a oedd yn gwybod o leiaf rywfaint am yr ASB ynghylch yr ASB.